Polisi Fioedd Rhentu Doeth Cymru

HYDREF 2020

Cynnwys

RHAN 1 DEDDF TAI (CYMRU) 2014: POLISI FFIOEDD 3
Ffioedd cofrestru a thrwyddedu landlordiaid 4
Ffioedd ar gyfer trwyddedu asiantau.....5
Taliad trwy randaliadau 7
Ffioedd Hyfforddi 8
Ffioedd cwrs ar gyfer landlordiaid ac asiantau 8
Ffioedd i Ddarparwyr Hyfforddiant.....9
Gwybodaeth ychwanegol.....9
Taliadau a disgowntiau ategol.....9
Pwyntiau eglurhad.....10
Ad-daliadau.....10

RHAN 1 DEDDF TAI (CYMRU) 2014: POLISI FFIOEDD

Diwygiadau yn weithredol o 13 Hydref 2020.

Ceir isod y Polisi Ffioedd ar gyfer Rhentu Doeth Cymru (RhDC). Defnyddir y ffioedd a gesglir i ddarparu'r gwasanaeth sy'n cynnwys cofrestru landlordiaid, trwyddedu landlordiaid ac asiantau a chynnal hyfforddiant cysylltiedig. Mae RhDC yn sefydliad nid er elw.

Mae Rheoliad 9 (1) Rheoliadau Tai Rhent Preifat (Gwybodaeth, Cyfnodau a Ffioedd ar gyfer Cofrestru a Thrwyddedu) (Cymru) yn nodi os yw awdurdod trwyddedu yn codi ffi am gofrestru neu drwyddedu, y dylai baratoi a chyhoeddi polisi ffioedd.

Mae Rheoliad 9 Rheoliadau Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015 yn nodi os yw awdurdod trwyddedu'n cofi ffi am awdurdodi darparwr hyfforddiant neu gymeradwyo cwrs, mae'n rhaid iddo baratoi a chyhoeddi polisi ffioedd.

Wrth osod y ffioedd ar gyfer cofrestru, trwyddedu a hyfforddi:

- Rhaid i'r awdurdod trwyddedu weithredu'n unol â'i bolisi;
- Gall yr awdurdod trwyddedu osod ffioedd gwahanol ar gyfer achosion neu ddisgrifiadau achosion gwahanol; a
- Gall yr awdurdod trwyddedu benderfynu nad oes angen talu ffi mewn rhai achosion neu ddisgrifiadau o achosion.

Gall yr Awdurdod Trwyddedu adolygu ei bolisi ffioedd, ac oes yw'n gwneud hynny, rhaid iddo gyhoeddi'r polisi fel y'i diwygiwyd. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cadw'r hawl i addasu ffioedd yn ôl ei ddisgresiwn.

Nodir isod y ffioedd a fydd yn gymwys i weithgareddau a ddarperir o dan ddarpariaethau Rhan 1 Ddeddf Tai (Cymru) 2014 o 13.10.2020.

Caiff landlordiaid ac asiantau ddewis talu ffi'r drwydded ar gyfradd ostyngol ymlaen llaw neu fel taliad mewn dwy ran. Bydd angen gwneud rhan gyntaf y taliad wrth gyflwyno'r cais, ac ail ran y taliad cyn i'r drwydded gael ei rhoi.

Ffioedd cofrestru a thrwyddedu landlordiaid

- Mae gan bob cais naill ai Ffi Ar-lein neu Ffi Bapur, yn dibynnu ar y dull ymgeisio.

- Gellir rhannu'r ffioedd trwyddedu yn ddwy ran, sy'n cynnwys tâl gweinyddol ychwanegol o £39.

- Mae'r holl gofrestriadau a thrwyddedau yn ddilys am bum mlynedd wedi'r dyddiad cyhoeddi / cymeradwyo.

- Rhennir cofrestriadau yn ddau fath o gais – cofrestriad newydd ac adnewyddu. Er mwyn manteisio ar y ffi adnewyddu, rhaid i'r landlord wneud cais i adnewyddu o fewn yr 84 diwrnod cyn i'r cofrestriad ddod i ben. Os oes gan landlord gofrestriad a'i fod yn gadael iddo ddod i ben, bydd yn rhaid talu ffi gofrestru newydd ac nid y ffi adnewyddu.

- Bydd adnewyddu trwydded landlord yn cael Gwobr Cydymffurfio'n Gynnar os gwnaed cais amdano rhwng 42 ac 84 diwrnod cyn y dyddiad dod i ben. Mae hyn yn gyfystyr â 10% oddi ar gost adnewyddu'r drwydded.

- Sicrhewch eich bod yn darllen yr HOLL wybodaeth gan gynnwys y wybodaeth ychwanegol ar dudalen 9.

Math y cais	Ffi Ar-lein	Ffi Papur
Cofrestriad newydd	£45	£84
Adnewyddu cofrestriad	£36	£67.20
Trwydded landlord	**Un taliad:** £187 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £155 Rhan 2: £71	**Un taliad:** £223 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £196 Rhan 2: £66
Trwydded landlord – Gwobr Cydymffurfio'n Gynnar[1]	**Un taliad:** £168.30 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £143 Rhan 2: £64.30	**Un taliad:** £200.70 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £180 Rhan 2: £59.70

[1] Pan wneir cais am adnewyddu trwydded landlord **42 diwrnod neu fwy cyn iddi ddod i ben.** Uchafswm y diwrnodau y gellir gwneud cais am adnewyddu trwydded **cyn i'r un bresennol ddod i ben yw 84 diwrnod.**

Ffioedd ar gyfer trwyddedu asiantau

- Os yw asiant yn rheoli dros 20 eiddo, bydd yn cael Disgownt Aelodaeth Broffesiynol os yw'n aelod o un o'r cyrff canlynol:
    - Cymdeithas Asiantaethau Gosod Preswyl (ARLA)
    - Cymdeithas Genedlaethol Asiantau Tai (NAEA)
    - Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
    - Safeagent (NALS gynt)
    - Cymdeithas Asiantaethau Gosod Tai y DU (UKALA)
    - Arall fel y penderfynir gan yr Awdurdod Trwyddedu

- Mae asiant gosod tai cymdeithasol y mae ei holl weithgareddau gosod a rheoli yn ymwneud â darparu ar y cyd â phartneriaeth gosod cymdeithasol awdurdod lleol yn gymwys ar gyfer y Gostyngiad Aelodaeth Broffesiynol.

- Mae gan bob cais naill ai Ffi Ar-lein neu Ffi Bapur, yn dibynnu ar y dull ymgeisio.

- Gellir rhannu rhan fwyaf y ffioedd yn ddwy ran, sy'n codi tâl gweinyddol ychwanegol o £39, ac eithrio'r ffioedd y mae rhandaliadau blynyddol ar gael yn eu lle.

- Mae'r holl drwyddedau yn ddilys am bum mlynedd wedi'r dyddiad cymeradwyo.

- Sicrhewch eich bod yn darllen yr HOLL wybodaeth gan gynnwys y wybodaeth ychwanegol ar dudalen 9.

Math y cais	Nifer yr eiddo	Ffi Ar-lein	Ffi Papur
Trwydded yr asiant – yn rheoli llai nag 20 eiddo	0-4	**Un taliad:** £187 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £108 Rhan 2: £118	**Un taliad:** £223 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £138 Rhan 2: £124
	5-10	**Un taliad:** £247 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £131 Rhan 2: £155	**Un taliad:** £283 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £164 Rhan 2: £158

Math y cais	Nifer yr eiddo	Ffi Ar-lein	Ffi Papur
	11-20	**Un taliad:** £307 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £153 Rhan 2: £193	**Un taliad:** £343 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £191 Rhan 2: £191
Trwydded asiant – gosod yn unig (ddim yn rheoli eiddo)	0-20 (gosod yn unig)	**Un taliad:** £187 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £108 Rhan 2: £118	**Un taliad:** £223 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £138 Rhan 2: £124
	21 a hŷn (gosod yn unig)	**Gweler y categori 21-50 isod yn ôl aelodaeth corff proffesiynol**	
Trwydded asiant – **Dim** aelodaeth o gorff proffesiynol, yn rheoli 21 eiddo neu fwy	21-50	**Un taliad:** £1,900 **Rhandaliadau** Taliad cyntaf: £712 Y pedwar nesaf: £297	**Un taliad:** £2,400 **Rhandaliadau** Taliad cyntaf: £1064 Y pedwar nesaf: £334
	51-100	**Un taliad:** £2,700 **Rhandaliadau** Taliad cyntaf: £1008 Y pedwar nesaf: £423	**Un taliad:** £3,200 **Rhandaliadau** Taliad cyntaf: £1,420 Y pedwar nesaf: £445
	101-500	**Un taliad:** £3,500 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £1,348 Rhan 2: £2,191	**Un taliad:** £4,000 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £1,815 Rhan 2: £2,224
	501-1000	**Un taliad:** £4,300 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £1,647 Rhan 2: £2,692	**Un taliad:** £4,800 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £2,170 Rhan 2: £2,669

Math y cais	Nifer yr eiddo	Ffi Ar-lein	Ffi Papur
	1001+	**Un taliad:** £5,100 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £1,946 Rhan 2: £3,193	**Un taliad:** £5,600 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £2,525 Rhan 2: £3,114
Trwydded asiant – **Gydag** aelodaeth o gorff proffesiynol, yn rheoli 21 eiddo neu fwy	21-50	**Un taliad:** £1,710 **Rhandaliadau** Taliad cyntaf: £638 Y pedwar nesaf: £268	**Un taliad:** £2,160 **Rhandaliadau** Taliad cyntaf: £960 Y pedwar nesaf: £300
	51-100	**Un taliad:** £2,430 **Rhandaliadau** Taliad cyntaf: £910 Y pedwar nesaf: £380	**Un taliad:** £2,880 **Rhandaliadau** Taliad cyntaf: £1280 Y pedwar nesaf: £400
	101-500	**Un taliad:** £3,150 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £1,217 Rhan 2: £1,972	**Un taliad:** £3,600 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £1,637 Rhan 2: £2,002
	501-1000	**Un taliad:** £3,870 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £1,486 Rhan 2: £2,423	**Un taliad:** £4,320 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £1,957 Rhan 2: £2,402
	1001+	**Un taliad:** £4,590 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £1,755 Rhan 2: £2,874	**Un taliad:** £5,040 **Ffi a rennir:** Rhan 1: £2,276 Rhan 2: £2,803

Taliad trwy randaliadau

Dydy'r opsiwn i dalu trwy randaliadau ddim ond ar gael i asiantau sy'n rheoli rhwng 21 a 100 o eiddo oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol a bydd yn amodol ar gymeradwyaeth y Rheolwr Gweithredol. Ni cheir talu trwy randaliadau ond os:

- yw debyd uniongyrchol yn cael ei sefydlu ar y cam gwneud cais

- ceir ymrwymiad o'r dechrau i dalu'r swm llawn
- nad oes tystiolaeth o hanes talu gwael neu hanes o ganslo cynlluniau talu blaenorol.

Pan gaiff trefniadau rhandaliadau eu canslo / pan na chânt eu talu caiff y drwydded ei diddymu a bydd angen i'r ymgeisydd gyflwyno cais newydd am drwydded yn ôl yr angen. Codir ffi cais newydd am hyn, beth bynnag sy'n briodol, ar adeg gwneud y cais. Mae'r gallu i dalu ffi'r drwydded drwy sefydlu cynllun rhandaliad yn ôl disgresiwn Rhentu Doeth Cymru, a gellir ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg.

Ffioedd Hyfforddi

Ffioedd cwrs ar gyfer landlordiaid ac asiantau

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cynnig ei hyfforddiant ei hun er mwyn ateb gofynion y ddeddfwriaeth. Mae'r cyrsiau ar gael yn uniongyrchol gan Rentu Doeth Cymru ac mae'r ffioedd cysylltiedig wedi eu nodi isod:

Teitl y Cwrs	Dull Darparu	Hyd	Ffi
Cwrs landlord	Ystafell ddosbarth	6.5 awr	£100
Cwrs asiant	Ystafell ddosbarth	7.5 awr	£140
Cwrs landlord	Ar-lein	Tua 5 awr	£30
Cwrs asiant	Ar-lein	Tua 7.5 awr	£50
Cwrs ail-drwyddedu landlordiaid	Ystafell ddosbarth	6.5 awr	£100
Cwrs ail-drwyddedu asiant	Ystafell ddosbarth	7.5 awr	£140
Cwrs ail-drwyddedu landlordiaid	Ar-lein	Tua 5 awr	£30
Cwrs ail-drwyddedu asiant	Ar-lein	Tua 7.5 awr	£50
Cwrs atodol asiant	Ar-lein	Tua 2.5 awr	£20
Cwrs ychwanegu at wybodaeth landlord	Ar-lein	Awr	Dim cost
Cyrsiau DPP	Ystafell ddosbarth	Oriau amrywiol	Hyd at £100 yn dibynnu ar fath a hyd y cwrs
Cyrsiau DPP	Ar-lein	Oriau amrywiol	Hyd at £50 yn dibynnu ar fath a hyd y cwrs
Gweminarau	Ar-lein	Oriau amrywiol	Hyd at £60 yn dibynnu ar fath a hyd y cwrs

Bydd ymgeiswyr na allant gwblhau'r cwrs hyfforddi ar-lein neu yn yr ystafell ddosbarth oherwydd anabledd neu afiechyd yn cael cynnig dewisiadau amgen lle bo hynny'n bosibl. Bydd ffioedd yn adlewyrchu cost darparu'r cwrs a bydd angen cymeradwyaeth gan y Rheolwr Gweithredol.

Ffioedd i Ddarparwyr Hyfforddiant

- Mae pob cymeradwyaeth cwrs ac awdurdodiad darparwr hyfforddiant yn ddilys am bum mlynedd o'r dyddiad cymeradwyo ac eithrio awdurdodiad darparwr hyfforddiant – DPP yn ychwanegol at holl opsiynau'r cwrs sy'n ddilys am 5 mlynedd o ddyddiad y diwygiad.

- Er mwyn darparu hyfforddiant i fodloni gofynion trwyddedu mae angen cymeradwyaeth ar gyfer y cwrs ac mae angen awdurdodi'r darparwr hyfforddiant drwy Gymeradwyo'r Cwrs ac Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant.

Math y cais	**Ffi**
Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant – Pob opsiwn cwrs	£806
Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant – DPP yn unig	£392
Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant – DPP Ychwanegiad ar gyfe rpob dewis cwrs	£414
Cymeradwyo'r Cwrs – Cwrs Llawn • Cwrs landlord ar-lein • Cwrs asiant ar-lein • Cwrs cyfunol[2] ar-lein • Cwrs ystafell ddosbarth	 £1,254 £1,360 £2,609 £1,391
Cymeradwyo'r Cwrs – DPP[3] • Cwrs DPP pwnc • Cwrs DPP sylfaenol • Cwrs DPP uwch	 £170 £249 £386

Gwybodaeth ychwanegol

Taliadau a disgowntiau ategol

Manylion gwasanaeth	**Swm**	**Cyfyngiadau**
Diweddaru gwybodaeth	Dim cost	Oni nodir yn wahanol mewn polisi.
Cardiau trwydded ychwanegol	£7	
Cofrestru wedi'i argraffu	£12	

[2] ystyr 'cyfunol' yw cais sy'n cwmpasu mwy nag un cwrs lle rhennir cynnwys ar draws y cyrsiau ac felly gellir cydnabod arbedion maint.
[3] Gellir gweld gwybodaeth ychwanegol am gymeradwyo hyfforddiant ac awdurdodi darparwyr hyfforddiant **yma**

Trwydded wedi'i hargraffu	£12	
Deunyddiau cwrs hyfforddi wedi'u hargraffu	Hyd at £12	Am ddim os yw'r cwsmer wedi talu am gwrs ystafell ddosbarth gyda RhDC.
Newid o gais papur i **gais** ar-lein		Os yw landlord/asiant wedi gwneud cais am drwydded ar-lein ac am dderbyn gohebiaeth trwy'r post, yna bydd angen i'r ymgeisydd dalu gwahaniaeth y ffi rhwng y cais papur ac ar-lein am y cais ar bapur.
Cydnabyddiaeth cydymffurfiaeth cynnar asiant	gostyngiad gan 10%	Cysylltir ag asiantau sy'n rheoli dros 20 eiddo ac a wnaeth gais am eu trwydded cyn 28 Medi 2016, ac a gymeradwywyd cyn 23 Tachwedd 2016, cyn eu hadnewyddu a chânt god taleb, sy'n rhoi gostyngiad gan 10% oddi ar ffi'r drwydded nesaf. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw ddisgownt arall (e.e. aelodaeth o'r corff proffesiynol).
Cymeradwyo cyrsiau DPP arbedion maint	gostyngiad gan 10%	Os yw darparwr yn cyflwyno mwy na 5 cais neu fwy am gyrsiau DPP uwch neu sylfaenol ar yr un pryd, bydd gostyngiad gan 10% oddi ar gyfanswm cost cymeradwyo'r cwrs yn cael ei gymhwyso

Pwyntiau eglurhad

- Os yw'r asiant yn rheoli unrhyw eiddo lle mae'r asiant hefyd yn landlord (h.y. landlord ac asiant yw'r un endid cyfreithiol) caiff yr eiddo hwn ei eithrio o gyfanswm yr eiddo a reolir sy'n pennu ffi'r drwydded.

- Os yw'r landlord yn newid perchenogaeth ei eiddo o un endid i endid arall e.e. person unigol i gorff corfforaethol bydd angen gwneud cais cofrestru / trwydded newydd a bydd ffi newydd i'w thalu.

- Ar ôl i'r cais gael ei gymeradwyo, ni ellir newid math y cais. Rhaid cyflwyno cais newydd am drwydded a thalu ffi newydd.

- Os gwrthodir cais am drwydded landlord neu asiant, bydd y ffi sy'n ddyledus yn cyfateb i ffi Rhan 1 yn unig. Os yw swm mwy wedi'i dalu'n wirfoddol ar y cam gwneud cais, caiff y gwahaniaeth ei ad-dalu gan RhDC.

Ad-daliadau

- Os nad oes angen trwydded ar drwyddedai mwyach, gellir cytuno i ddiddymu'r drwydded ond nid ad-delir y ffi i'r ymgeisydd. Pan fo'r ffi'n cael ei thalu trwy

randaliadau, mae'r swm dyledus dal yn ddyledus.

- Mewn achos pan fo cyd-landlord yn marw ac mae'n rhaid i'r landlord sydd ar ôl ailgofrestru fel unigolyn; gwneir ad-daliad rhannol o ddyddiad y farwolaeth hyd at ddyddiad dod i ben y cofrestriad gwreiddiol.

- Os diddymir cais am drwydded landlord neu asiant yn ystod cyfnod y drwydded, nid ad-delir unrhyw ran o'r ffi.

- Bydd archebion cwrs hyfforddi a wneir ond nas mynychwyd / cyrsiau ar-lein a archebir ac nas cwblhawyd o fewn blwyddyn yn cael eu canslo ac ni wneir ad-daliad, oni phrofir amgylchiadau eithriadol.